Siarad Gyda Fi
Talk With Me

# Cefnogi Datblygiad Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y Blynyddoedd Cynnar

# Adran 3:
## Canllaw i blant 18 mis i 2 flwydd oed



OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48480 ISBN digidol 978-1-83504-696-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cefnogi Datblygiad Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y Blynyddoedd Cynnar

## Adran 3: Canllaw i blant 18 mis i 2 flwydd oed

Tudalennau Trosolwg


Sylw a Gwrando ........ 43

Chwarae a Rhyngweithio ........ 44

Deall Iaith Lafar ........ 45

Defnyddio Iaith Lafar ........ 46

Lleferydd ........ 47


Dilyniannau Datblygiadol, Posteri Strategaethau a Gweithgareddau a Awgrymir:


Sylw a Gwrando ........ 49

Chwarae a Rhyngweithio ........ 52

Deall Iaith Lafar ........ 55


Defnyddio Iaith Lafar ........ 58

Lleferydd ........ 61


Trwy gydol y canllaw yma, cyfeiriwyd at ddatblygiad nodweddiadol LlICh.
Mae'n bwysig cefnogi'r plentyn yn ei gam datblygu yn hytrach na'i oedran.

## Sylw a Gwrando

18 mis i 2 flwydd oed




**Sgiliau sylw a gwrando yw sylfaen lleferydd, iaith a chyfathrebu.** Mae angen i blant ddatblygu'r sgiliau hanfodol hyn er mwyn gallu deall y byd o'u cwmpas, datblygu sgiliau cymdeithasol, deall arferion, dysgu geiriau newydd a datblygu synau lleferydd.

Mae'n bwysig sicrhau bod plant yn *talu sylw* cyn disgwyl iddynt wrando.

**Rhwng 18 mis a 2 flwydd oed efallai y sylwch chi fod y plentyn yn...**

- gwrando ar stori gyda lluniau
- hoffi canolbwyntio ar weithgaredd o'u dewis
- gallu ei chael yn anodd derbyn cyfarwyddyd gan oedolyn
- gorfod cael oedolyn i alw'u henw i'w helpu i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n cael ei ddweud
- mwynhau gwrando ar rigymau, caneuon a straeon cyfarwydd.

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**




- ☑ Sicrhewch fod mannau tawel tu mewn a thu allan.
- ☑ Ailadroddwch ganeuon, rhigymau a straeon dro ar ôl tro, gan ddefnyddio propiau.
- ☑ Sicrhewch fod plant yn gallu canolbwyntio yn ystod gweithgareddau ar y cyd e.e. peidiwch â pharatoi byrbrydau yn ystod amser stori.

**Strategaethau i ddatblygu sylw a gwrando:**

- Sicrhewch eich bod wyneb-yn-wyneb â'r plentyn.
- Dilynwch arweiniad y plentyn.
- Lleihewch y pethau sy'n tynnu sylw a synau cefndir.
- Modelwch sylw a gwrando da.
- Canmolwch ymddygiadau sylw a gwrando da.


Defnyddiwch enw'r plentyn i gael eu sylw.

**CHWARAE GYDA FI...defnyddiwch y gweithgareddau a awgrymir ar dudalen 51**

| Rhannu stori | Canu caneuon a rhigymau | Gwrando am y synau |
|---|---|---|
|  |  |  |

# Chwarae a Rhyngweithio

18 mis i 2 flwydd oed




**Mae plant yn gwneud synnwyr o'r byd trwy chwarae ac mae chwarae'n hollbwysig er mwyn cefnogi datblygiad yr ymennydd yn y blynyddoedd cynnar.** Trwy chwarae, mae plant yn datblygu ac yn dysgu defnyddio'u sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Chwarae yw'r cyd-destun hollbwysig i blant dan bum mlwydd oed er mwyn dysgu am sgiliau cymdeithasol.

**Mae rhyngweithio yn cynnwys y gallu i chwarae mewn ffordd gydweithredol gyda chyfoedion a chymryd tro**. Trwy chwarae a rhyngweithio, mae plant yn dysgu deall eu hemosiynau a'u rheoleiddio, a datblygu eu sgiliau cymdeithasol.

**Rhwng 18 mis a 2 flwydd oed efallai y sylwch chi fod y plentyn yn...**

- cymryd tro mewn gemau syml e.e. rholio pêl
- datblygu eu chwarae dychmygus gyda theganau e.e. bwydo doli, gyrru car
- dilyn iaith corff oedolyn e.e. pwyntio, ystumiau a mynegiant wyneb
- defnyddio cyswllt llygaid i ddechrau rhyngweithio
- dechrau chwarae gyda theganau bach
- dechrau sortio a grwpio gwrthrychau e.e. rhoi'r ceir neu'r anifeiliaid i gyd gyda'i gilydd
- gallu cwblhau tegan sortio siapau syml.

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

- ☑ Sicrhewch fod plant yn gallu dewis o amrywiaeth addas o lyfrau/teganau/adnoddau.
- ☑ Anogwch y plant i helpu tacluso a sortio pethau i mewn i focsys a basgedi.
- ☑ Cefnogwch chwarae bach gyda gwrthrychau a theganau byd bach.


**STRATEGAETHAU i ddatblygu chwarae a rhyngweithio:**

- Modelwch y cyfleoedd 'chwarae' ac anogwch rhyngweithio.
- Siaradwch am yr hyn mae'r plentyn yn ei wneud trwy siarad am eu chwarae.
- Modelwch a chwaraewch gemau dychmygus gyda'r plentyn.
- Dilynwch arweiniad y plentyn ac ymunwch yn eu chwarae.
- Anogwch y plentyn i gymryd tro.
- Crewch gyfleoedd i'r plentyn gyfathrebu e.e. rhowch ychydig bach o laeth i'r plentyn er mwyn iddynt gyfathrebu eu bod eisiau mwy.


Sicrhewch eich bod wyneb-yn-wyneb â'r plentyn.

**CHWARAE GYDA FI...edrychwch ar rai o'r gweithgareddau a awgrymir ar dudalen 54**


**Fy nhro i, dy dro di**



**Tacluso gyda'ch gilydd**




**Dewch am bicnic**



## Deall Iaith Lafar

18 mis i 2 flwydd oed




**Mae deall iaith lafar (iaith dderbyngar) yn hollbwysig er mwyn i blant wneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas.** Mae'n cynnwys y gallu i ddeall geiriau, brawddegau a chyfathrebu dieiriau pobl/plant eraill. Mae plant yn dysgu datblygu dealltwriaeth o eiriau a brawddegau mewn camau; un gair yn gyntaf, yna nifer o eiriau unigol, yna brawddegau byr ac yna brawddegau hirach, mwy cymhleth

**Rhwng 18 mis a 2 flwydd oed efallai y sylwch chi fod y plentyn yn...**

- datblygu eu dealltwriaeth o eiriau sengl yn gyflym - yn deall 200 i 500 o eiriau
- dilyn cwestiynau a chyfarwyddiadau syml e.e. 'cer i nôl esgidiau Mami', 'ble mae Tedi?'
- deall geiriau syml am weithredoedd e.e. yfed, cysgu
- gallu dod o hyd i wrthrych cyfarwydd ag enw iddo pan gynigir dewis.

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

- ☑ Sicrhewch fod plant yn gallu dod o hyd i'r adnoddau y maent eu heisiau e.e. gosodwch adnoddau ar lefel y llygaid.
- ☑ Defnyddiwch ffotograffau, lluniau a geiriau i labelu bocsys a basgedi.
- ☑ Cefnogwch eu dealltwriaeth o straeon gyda phypedau a phropiau.
- ☑ Cefnogwch eu dealltwriaeth o arferion bob-dydd gyda chymhorthion gweledol e.e. lluniau 'nawr a nesaf'.


**STRATEGAETHAU i ddatblygu dealltwriaeth o iaith lafar:**


- Mynnwch sylw'r plentyn cyn siarad â nhw.
- Dilynwch arweiniad y plentyn a siaradwch am yr hyn mae'n ei wneud .
- Rhowch ddigon o amser i'r plentyn ymateb.
- Defnyddiwch eich llais, ystumiau neu arwydd i bwysleisio geiriau allweddol.

*Defnyddiwch frawddegau byr, syml.*

**CHWARAE GYDA FI...edrychwch ar rai o'r gweithgareddau a awgrymir ar dudalen 57**


**Gwrando a gwneud** | **Dere i siopa** | **Ymuno mewn caneuon â symudiadau**





## Defnyddio Iaith Lafar

18 mis i 2 flwydd oed




**Defnyddio iaith lafar (iaith fynegiannol) yw'r gallu i atgofio geiriau a gwybodaeth a defnyddio iaith, iaith y corff ac ystumiau yn briodol mewn sefyllfaoedd penodol e.e. i labelu/enwi gwrthrychau, disgrifio symudiadau a digwyddiadau, holi ac ateb cwestiynau ac ail-ddweud stori.**

Mae geirfa dda yn hollbwysig i blant er mwyn iddynt allu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dysgu a mynegi eu meddyliau a'r hyn y maent ei angen a'i eisiau.

**Rhwng 18 mis a 2 flwydd oed efallai y sylwch chi fod y plentyn yn...**

- dal i ddeall llawer mwy o eiriau nag y maent yn eu defnyddio
- dysgu ac yn defnyddio geiriau newydd yn gyflym - tua 50 o eiriau
- dechrau rhoi 2 i 3 gair at ei gilydd e.e. 'mwy o laeth'
- holi cwestiynau'n rheolaidd e.e. 'pwy yw hwnna'?
- swnio fel eu bod yn siarad mewn brawddegau trwy barablu rhwng geiriau go iawn.

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

- ☑ Sylwch ar ddiddordebau'r plentyn.
- ☑ Ychwanegwch adnoddau newydd er mwyn annog y plentyn i ddysgu geirfa newydd.

**STRATEGAETHAU i ddatblygu'r defnydd o iaith lafar:**

- Dilynwch arweiniad y plentyn a siaradwch am yr hyn mae'n ei wneud.
- Rhowch ddewisiadau e.e. wyt ti eisiau llaeth neu ddŵr? (wrth ddangos y rhain i'r plentyn).
- Defnyddiwch enwau gwrthrychau yn hytrach na holi 'beth yw hwn'?
- Ychwanegwch air at yr hyn mae'r plentyn yn ei ddweud e.e. plentyn: 'car' oedolyn: 'car dadi'.

Rhowch amser i'r plentyn i ymateb.

**CHWARAE GYDA FI... edrychwch ar rai o'r gweithgareddau a awgrymir ar dudalen 60**

Chwarae pypedau

Beth sydd yn y bag?

Chwarae gyda cheir








# Lleferydd

18 mis i 2 flwydd oed




**Mae lleferydd (ffonoleg) yn cyfeirio at y gallu i ddweud synau lleferydd i wneud eich hun yn ddealladwy. Pan fyddwn yn gwrando ar blentyn yn siarad, gallwn feddwl am pa mor glir yw ei eiriau. Nid yw *lleferydd* yr un peth â *siarad.***

Defnyddiwch y **Poster Datblygiad Synau Lleferydd Saesneg** sydd ar dudalen 62 a'r Speech acquisition - Multilingual Children's Speech (csu.edu.au) i gefnogi eich arsylwadau.

**Rhwng 18 mis a 2 flwydd oed efallai y sylwch chi fod y plentyn yn...**

- defnyddio synau lleferydd p, b, m, w, t, d, n
- swnio fel eu bod yn siarad mewn brawddegau trwy barablu rhwng geiriau go iawn.

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

- ☑ Lleihewch y pethau sy'n tynnu sylw a synau cefndir.
- ☑ Canwch lawer o rigymau.

**STRATEGAETHAU i ddatblygu lleferydd clir:**

- Sicrhewch eich bod wyneb-yn-wyneb â'r plentyn.
- Ymatebwch i'r gair mae'r plentyn yn ei ddweud ac nid pa mor glir ydynt.
- Ceisiwch beidio â dweud wrth y plentyn eu bod wedi dweud rhywbeth yn anghywir.
- Ceisiwch beidio â gofyn i'r plentyn ailadrodd geiriau aneglur.
- Peidiwch ag esgus eich bod yn deall - anogwch y plentyn i ddefnyddio ystumiau i ddangos beth maen nhw'n ceisio'i ddweud.

Ailadroddwch unrhyw eiriau y mae'r plentyn yn eu dweud, gan ddefnyddio'r synau cywir.

**GWEITHGAREDDAU A AWGRYMIR i gefnogi datblygiad lleferydd:**

**Dywedwch a chanwch ganeuon a rhigymau bob dydd!**



Pen, ysgwyddau coesau, traed...



Dringodd y pry copyn...




Mae gan Ewythr Ifan Fferm...

**Bydd gweithgareddau ymhob maes cyfathrebu arall yn cefnogi datblygiad lleferydd ar yr oed hwn.**

## Posteri Strategaethau a Gweithgareddau a Awgrymir: 18 mis i 2 flwydd oed

Yn yr adran hon, fe welwch chi bosteri strategaethau a gweithgareddau a awgrymir i'ch arwain chi wrth gynllunio i ddatblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu'r plentyn, wedi i chi ddefnyddio'r wybodaeth ar y tudalennau trosolwg.





Rhoddir y gweithgareddau a awgrymir fel enghreifftiau; defnyddiwch eich profiadau a'ch syniadau i'w cyfoethogi. Ni fwriedir i'r gridiau fod yn rhaglen benodol, anhyblyg; ond, gellir defnyddio'r syniadau i gefnogi targedau wedi'i bersonoli, fel sy'n briodol. Gallwch ddefnyddio bocset *'Early Talkers'* hefyd i gael mwy o syniadau ond nid yw hwn ar gael yn Gymraeg (ar gael ar **speechandlanguage.org.uk).**

**Strategaethau i ddatblygu sylw a gwrando:**

- Sicrhewch eich bod wyneb-yn-wyneb â'r plentyn.
- Dilynwch arweiniad y plentyn.
- Lleihewch y pethau sy'n tynnu sylw a synau cefndir.
- Modelwch sylw a gwrando da.
- Canmolwch ymddygiadau sylw a gwrando da.

**Defnyddiwch enw'r plentyn i gael eu sylw.**




Dangosir pob strategaeth ar boster.

Efallai yr hoffech rannu'r posteri hyn gyda rhieni.

PWYSIG:
Defnyddiwch y strategaethau a awgrymir gyda'r gweithgareddau, ac yn eich rhyngweithiadau trwy gydol y dydd.

Efallai yr hoffech ddefnyddio'r gweithgareddau a awgrymir i gefnogi sgiliau yn y maes hwn.

| Gweithgaredd | Sylw a Gwrando - Gweithgareddau a Awgrymir (18 mis i 2 flwydd oed) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Rhannu llyfrau** | ***Datblygu sylw trwy rannu llyfrau.***<br><br>**Beth i'w wneud:** Dewiswch lyfr codi'r fflap neu lyfr lluniau y mae'r plentyn yn ei hoffi e.e. Ble mae Smot?, Annwyl Sw, Ble mae Peppa? Rhannwch y llyfr ac wrth i chi droi'r tudalennau siaradwch am yr hyn a welwch chi, e.e. *'Rwy'n gallu gweld Smot yn chwarae gyda'i bêl.'* Defnyddiwch fynegiant wyneb a gwnewch i'ch llais swnio'n ddiddorol er mwyn ennyn diddordeb y plentyn yn y stori. Rhowch y llyfr o fewn cyrraedd i'r plentyn fel eu bod yn gallu ei fwynhau dro ar ôl tro. | Neilltuwch amser tawel a lleihewch y pethau sy'n tynnu sylw er mwyn helpu'r plentyn i ganolbwyntio. | Cyflwynwch lyfrau newydd i'r plentyn eu harchwilio gyda chi. |
| **Caneuon a Rhigymau** | ***Ymuno mewn rhigymau a chaneuon â symudiadau.***<br><br>**Beth i'w wneud:** Canwch rigymau a chaneuon cyfarwydd â symudiadau trwy gydol y dydd. Anogwch y plentyn i ymuno gyda symudiadau a/neu eiriau. Ceisiwch aros ar ddiwedd llinell i weld os yw'r plentyn yn ymuno e.e. *'Seren fechan yn y _______.'* Defnyddiwch bropiau i gefnogi'r gân neu'r rhigwm - ychwanegwch y rhain at y fasged neu'r bocs er mwyn i'r plentyn eu gweld a dewis hoff rigwm i'w ganu eto. | Neilltuwch amser tawel a lleihewch y pethau sy'n tynnu sylw er mwyn helpu'r plentyn i ganolbwyntio.<br><br>Lleihewch y dewis o bropiau sydd ar gael. | Datblygwch y dewis o rigymau a chaneuon yr ydych yn eu defnyddio. |
| **Chwarae cuddio sain** | ***Gwrando am sŵn.***<br><br>**Beth i'w wneud:** Dangoswch ddewis o deganau swnllyd neu declynnau sy'n creu sŵn i'r plentyn. Anogwch y plentyn i ddewis un ac i wrando ar y sŵn mae'n ei wneud. Cuddiwch y tegan neu'r teclyn mewn lle amlwg ac annog y plentyn i ddod o hyd i'r tegan trwy wrando ar ei sŵn. Dywedwch bethau fel 'Gwranda...wyt ti'n gallu clywed y sŵn? Ble mae'r sŵn?' | Neilltuwch amser tawel a lleihewch y pethau sy'n tynnu sylw er mwyn helpu'r plentyn i ganolbwyntio.<br><br>Lleihewch y dewis o deganau neu wrthrychau. | Cyflwynwch synau tawelach. |

## Mae sylw'n dilyn dilyniant datblygiadol:

| 0 i 11 mis | 8 i 20 mis | 22 i 36 mis |
|---|---|---|
| **Sylw'n Mynd a Dod**<br>Hawdd tynnu ei sylw a sylw'n mynd a dod o un peth i'r nesaf. | **Sylw Anhyblyg**<br>Gall ganolbwyntio ar un dasg o'u dewis eu hunain, ac ni all oddef oedolyn yn torri ar eu traws | **Sylw sianel sengl**<br>Bydd yn rhoi sylw i gyfarwyddyd gan oedolyn.<br>Methu ag ymdopi â gwneud un peth a gwrando ar gyfarwyddyd am rywbeth arall. |
| **30 i 50 mis** | **40 i 60 mis** | **60 mis +** |
| **Ffocysu'r sylw**<br>Dechrau rheoli ei ffocws ei hun.<br>Gall ganolbwyntio ar un peth ar y tro (y dasg neu'r cyfarwyddyd sydd ddim yn gysylltiedig).<br>Gall newid ffocws ei sylw'n annibynnol. | **Sylw dwy sianel**<br>Gall ymgymryd â thasg a deall cyfarwyddyd ar yr un pryd.<br>Gall ei sylw fod yn fyr ond nawr gellir eu haddysgu mewn grŵp. | **Sylw integredig**<br>Mae'r sylw wedi'i reoli, ei gynnal a'i sefydlu'n dda ar draws sefyllfaoedd gwahanol, gyda phobl wahanol. |

- **Efallai y bydd rhai plant yn gweithredu ar lefel sy'n is na'u hoed cronolegol**
- **Ni all plant ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu os nad ydynt yn gallu talu sylw neu wrando**

## Sylw a Gwrando - STRATEGAETHAU ALLWEDDOL 18 mis i 2 flwydd oed

**Sicrhewch fod pob oedolyn yn MODELU ac yn CANMOL ymddygiadau sylw a gwrando da.**

Defnyddia fy enw i gael fy sylw.

Dilyna fy arweiniad wrth chwarae.

Sicrha dy fod wyneb-yn-wyneb â fi.



Helpa fi i ganolbwyntio - lleiha'r pethau sy'n tynnu sylw a synau cefndir.

| Gweithgaredd | Sylw a Gwrando - Gweithgareddau a Awgrymir (18 mis i 2 flwydd oed) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Rhannu llyfrau** | ***Datblygu sylw trwy rannu llyfrau.***<br><br>**Beth i'w wneud:** Dewiswch lyfr codi'r fflap neu lyfr lluniau y mae'r plentyn yn ei hoffi e.e. Ble mae Smot?, Annwyl Sw, Ble mae Peppa? Rhannwch y llyfr ac wrth i chi droi'r tudalennau siaradwch am yr hyn a welwch chi, e.e. *'Rwy'n gallu gweld Smot yn chwarae gyda'i bêl.'* Defnyddiwch fynegiant wyneb a gwnewch i'ch llais swnio'n ddiddorol er mwyn ennyn diddordeb y plentyn yn y stori. Rhowch y llyfr o fewn cyrraedd i'r plentyn fel eu bod yn gallu ei fwynhau dro ar ôl tro. | Neilltuwch amser tawel a lleihewch y pethau sy'n tynnu sylw er mwyn helpu'r plentyn i ganolbwyntio. | Cyflwynwch lyfrau newydd i'r plentyn eu harchwilio gyda chi. |
| **Caneuon a Rhigymau** | ***Ymuno mewn rhigymau a chaneuon â symudiadau.***<br><br>**Beth i'w wneud:** Canwch rigymau a chaneuon cyfarwydd â symudiadau trwy gydol y dydd. Anogwch y plentyn i ymuno gyda symudiadau a/neu eiriau. Ceisiwch aros ar ddiwedd llinell i weld os yw'r plentyn yn ymuno e.e. *'Seren fechan yn y ______.'* Defnyddiwch bropiau i gefnogi'r gân neu'r rhigwm - ychwanegwch y rhain at y fasged neu'r bocs er mwyn i'r plentyn eu gweld a dewis hoff rigwm i'w ganu eto. | Neilltuwch amser tawel a lleihewch y pethau sy'n tynnu sylw er mwyn helpu'r plentyn i ganolbwyntio.<br><br>Lleihewch y dewis o bropiau sydd ar gael. | Datblygwch y dewis o rigymau a chaneuon yr ydych yn eu defnyddio. |
| **Chwarae cuddio sain** | ***Gwrando am sŵn.***<br><br>**Beth i'w wneud:** Dangoswch ddewis o deganau swnllyd neu declynnau sy'n creu sŵn i'r plentyn. Anogwch y plentyn i ddewis un ac i wrando ar y sŵn mae'n ei wneud. Cuddiwch y tegan neu'r teclyn mewn lle amlwg ac annog y plentyn i ddod o hyd i'r tegan trwy wrando ar ei sŵn. Dywedwch bethau fel 'Gwranda...wyt ti'n gallu clywed y sŵn? Ble mae'r sŵn?' | Neilltuwch amser tawel a lleihewch y pethau sy'n tynnu sylw er mwyn helpu'r plentyn i ganolbwyntio.<br><br>Lleihewch y dewis o deganau neu wrthrychau. | Cyflwynwch synau tawelach. |

## Mae sgiliau chwarae yn dilyn dilyniant datblygiadol:

**Chwarae archwiliadol (geni tan tua 5 mis oed):** Ysgwyd, cega, taro a throi teganau a gwrthrychau eraill drosto er mwyn ceisio darganfod beth ydynt. Tua 9 mis oed, bydd yn edrych am wrthrych sydd wedi cael ei guddio (mae'n deall sefydlogrwydd gwrthrych).
**Adnabod gwrthrychau (tua 12 mis):** Mae'n dangos dealltwriaeth o'r defnydd priodol o wrthrych heb esgus e.e. defnyddio brwsh ar eu gwallt.

**Chwarae gyda gwrthrychau (rhwng 8 ac 20 mis):** Esgus defnyddio gwrthrych arnyn nhw eu hunain e.e. defnyddio cwpan tegan i yfed.

**Chwarae cymeriadau (rhwng 16 a 26 mis):** Defnyddio cymeriadau tegan yn eu chwarae e.e. rhoi diod i'r dinosor.

**Efelychu arferion (tua 22 i 36 mis):** Mae'n efelychu arferion syml trwy chwarae e.e. rhoi bath i'r doli a'u gwisgo'n barod i'r gwely. Mae chwarae byd bach yn dod yn fwy cymhleth ac efelychir senarios a straeon. Mae'n defnyddio gwrthrychau'n ddychmygus e.e. gallai bocs fod yn gar/wely.

**Chwarae rôl (tua 3 i 4 blwydd oed):** Gwisgo i fyny'n syml i ddechrau, ac yna'n raddol yn chwarae rôl fwy dychmygus y cymeriad cyfan.

**Chwarae dychmygus cymhleth a chydweithredol (4 blwydd oed +):** Mae'n efelychu dilyniannau y mae'n eu gweld yn eu hamgylchedd, mewn llyfrau ac ar y teledu e.e. arferion y cartref.

**Mae sgiliau rhyngweithio yn adeiladu wrth chwarae ac yn cynnwys y gallu i chwarae'n gydweithredol gyda chyfoedion a chymryd tro:**

| 0 i 9 mis | 9 i 18 mis | 18 mis i 3 blwydd oed |
|---|---|---|
| Mae rhyngweithiadau yn dechrau ac y gorffen gyda chyswllt llygaid babi, e.e. gêmau fel pi-po. | Bydd y plentyn yn dechrau rhyngweithiadau gyda geiriau a heb eiriau e.e. pwyntio, rhoi a dangos. Gallai'r rhyngweithio orffen wrth i'r plentyn symud i ffwrdd. Rhyngweithiadau wedi eu cyfyngu at 1 neu 2 dro i bob partner. | Gall rhyngweithiadau ddechrau trwy ddefnyddio enw e.e. *'Mami'*. Mae'n dechrau ymateb i gwestiynau gyda geiriau. Mae'n ailadrodd neu'n newid ei (l)lefaru os nad ydyw wedi cael ei (d)deall. Efallai y bydd rhyngweithiadau wedi eu cyfyngu at sefyllfaoedd cyffyrddus, cyfarwydd. |
| **3 i 4 blwydd oed** | **4 i 7 blwydd oed** | **7 blwydd oed +** |
| Mae ganddynt ddewis o strategaethau i ddechrau sgwrsio e.e. *'Ti'n gw'bod beth?'* Nifer y troeon mewn sgwrs yn cynyddu. Gall gyfathrebu'n well gyda phobl ddieithr. Gall gymryd rhan mewn sgyrsiau sy'n chwarae rôl. Mae'n defnyddio iaith eang ar gyfer amrywiaeth o swyddogaethau e.e. holi cwestiynau, gwneud awgrymiadau, rhoi cyfarwyddyd i eraill. | Gall ddechrau a diweddu sgyrsiau a chymryd tro yn well. Mae'n dysgu dewis yr amseriad mwyaf addas i ymuno yn sgyrsiau pobl eraill. Mae'r plentyn yn dal i feddwl bod y gwrandäwr yn rhannu ei (g)wybodaeth gefndir. Mae'n dysgu addasu arddulliau sgyrsiau ar gyfer amrywiaeth o wrandawyr e.e. teulu, ffrindiau, ac athrawon. | Mae'n dod yn fwy ymwybodol o'r gwrandäwr a'i (g)wybodaeth gefndir. Mae'n cyfleu elfennau craff gyda goslef a phwyslais. Mae'n defnyddio iaith i berswadio, cyfleu anghymeradwyaeth ac er mwyn bod yn gwrtais. Mae'n datblygu addasrwydd cymdeithasol. |

## Chwarae a Rhyngweithio – STRATEGAETHAU ALLWEDDOL 18 mis i 2 flwydd oed

**Efallai y bydd angen i oedolion fodelu'r cyfleoedd 'chwarae' ac annog rhyngweithio.**

Modela a chwarae gêmau dychmygus gyda fi.


Dilyna fy arweiniad ac ymuna yn fy chwarae.

Siarada am yr hyn rydw i'n ei wneud - siarada am fy chwarae.

Helpa fi i gymryd tro.

Sicrha dy fod wyneb-yn-wyneb â fi.

Crea gyfleoedd i fi gyfathrebu e.e. ceisia roi ychydig o laeth i fi ac annog fi i ofyn am fwy.



| Gweithgaredd | Chwarae a Rhyngweithio - Gweithgareddau a Awgrymir (18 mis i 2 flwydd oed) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Gêmau cymryd tro** | ***Cymryd tro wrth chwarae gêmau syml e.e. rholio pêl.*** Datblygu'r sgiliau y mae eu hangen ar gyfer cymryd tro wrth siarad yn nes ymlaen.<br><br>**Sut i chwarae:** Cymerwch dro i rolio gwrthrychau fel pêl neu gar ar hyd y llawr at eich gilydd. Siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei wneud e.e. *'Rwy'n rholio'r bêl at Daniel.' 'Dy dro di.' 'Fy nhro i.'* | Cymerwch un tro yr un ac adeiladwch i fyny'n raddol. | Dewch â phlentyn arall i mewn i'r gêm. |
| **Picnic Tedi Bêr** | ***Modelu chwarae dychmygus gyda'r plentyn.***<br><br>**Sut i chwarae:** Gosodwch bicnic gyda hoff dedis a/neu ddolis y plentyn. Modelwch fwydo Tedi/Doli a rhoi diod iddynt a siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei wneud e.e. *'Mae Tedi'n bwyta.''Mmmmm, blasus". 'Te poeth.'* Anogwch y plentyn i fwydo Tedi a Doli hefyd. | Modelwch fwydo Tedi neu Doli yn y cyd-destun e.e. dewch â Tedi at y bwrdd byrbrydau ac esgus eich bod yn ei fwydo wrth i'r plentyn fwyta. | Modelwch y dilyniant nesaf mewn chwarae dychmygus e.e. ar ôl i'r plentyn fwydo Tedi, modelwch sychu wyneb Tedi neu roi diod i Tedi. |
| **Tacluso gyda'ch gilydd** | ***Annog y plentyn i helpu tacluso a sortio pethau i mewn i focsys a basgedi.***<br><br>**Beth i'w wneud:** Gosodwch focsys a basgedi ar gyfer teganau ac adnoddau a'u labelu'n glir gyda lluniau o'r gwrthrychau i fynd ynddynt. Gellir defnyddio'r rhain bob dydd i annog plant i gasglu a sortio teganau a gwrthrychau i'w gosod yn y bocs neu'r fasged iawn. | Dechreuwch gyda dau gategori sy'n wahanol iawn i'w gilydd e.e. bwyd ac anifeiliaid. Dangoswch sut i sortio un math o degan ar y tro. Siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei wneud e.e. *'Mae'r anifeiliaid yn mynd i mewn i'r bocs yma.'* | Defnyddiwch dri math gwahanol o deganau i'r plant eu sortio e.e. anifeiliaid, bwyd a thrafnidiaeth. |

**Mae Deall Iaith Lafar (iaith dderbyngar) yn dilyn dilyniant a gydnabyddir:**

| Geni | 6 mis | 12 mis |
|---|---|---|
| Ymateb i synau (geiriol neu ddieiriau).<br>Ymateb i oslef ac emosiwn mewn lleisiau. | Mae'n deall ymadroddion cyfan pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn arferion cyfarwydd. | Mae'n deall geiriau allweddol mewn sefyllfaoedd cyfarwydd (yn aml gelwir hyn yn ddealltwriaeth sefyllfaol). |
| **18 mis** | **2 flwydd oed** | **2 ½ flwydd oed** |
| Mae'n deall enwau gwrthrychau sy'n absennol pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn brawddegau cyfarwydd ar unrhyw adeg. | Mae'n gallu ffurfio cysylltiad rhwng dau wrthych sy'n cael eu henwi.<br>Mae'n gallu adnabod gwrthrychau wrth ddisgrifio'r defnydd ohonynt. | Mae'n deall gweithredoedd syml a phriodoleddau sydd ddim yn ymwneud ag ef/hi ei hun.<br>Mae'n deall arddodiaid syml, e.e. *dan, ar, trwy* a chysyniadau maint syml, e.e. *mawr, bach,* pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn brawddegau syml.<br>Mae'n dechrau deall 'amser' fel cyfeiriad at y gorffennol neu'r dyfodol agos. |
| **3 blwydd oed** | **4 blwydd oed** | **5 mlwydd oed +** |
| Mae'n ffurfio cysylltiad rhwng hyd at dri gair mewn brawddeg pan na fydd unrhyw gliwiau eraill i helpu.<br>Mae'n dechrau deall amser, e.e. *Rydyn ni <u>wedi bod</u> i'r siop; Rydyn ni'n <u>mynd</u> i'r siop.*<br>Mae'n deall cysyniadau syml siâp a lliw pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn brawddegau syml. | Mae'n dilyn dilyniant stori syml.<br>Mae'n deall y rhan fwyaf o frawddegau syml.<br>Mae'n parhau i elwa ar gliwiau sefyllfaol. | Yn raddol, mae'n deall brawddegau mwy cymhleth allan o'u cyd-destun.<br>Mae eu geirfa dderbyngar yn parhau i ddatblygu. |


## Deall Iaith Lafar – STRATEGAETHAU ALLWEDDOL                18 mis i 2 flwydd oed

**Defnyddiwch eich llais, ystumiau neu arwydd i bwysleisio geiriau allweddol.**

Siarada am yr hyn rydw i'n ei wneud.

Dilyna fy arweiniad a siarada am yr hyn rydw i'n ei wneud.

Defnyddia frawddegau byr, syml.



Mynna fy sylw cyn i ti siarad â fi.

Rho ddigon o amser i fi i ymateb.

| Gweithgaredd | Deall Iaith Lafar - Gweithgareddau a Awgrymir (18 mis i 2 flwydd oed) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Gwrando a gwneud** | ***Dilyn cwestiynau a chyfarwyddiadau syml.***<br><br>**Beth i'w wneud:** Chwaraewch ochr yn ochr â'r plentyn a'u hannog i ddilyn cyfarwyddiadau syml e.e. *'Rho'r cwpan i fi.' 'Dangos Doli i fi'*<br><br>Bydd llawer o gyfleoedd trwy gydol y dydd i ddefnyddio cwestiynau a chyfarwyddiadau syml a gallwch ddatblygu'r syniad hwn mewn gêmau syml e.e. gêmau pysgota, gêmau postio... | Unwaith fyddwch chi wedi rhoi cyfarwyddyd dangoswch sut i'w wneud. Lleihewch nifer y gwrthrychau/ teganau. | Defnyddiwch ferfau syml e.e. 'Rho Tedi i <u>gysgu</u>'; a chysyniadau syml - 'Rho'r plât <u>mawr</u> i fi.' |
| **Caneuon â symudiadau** | ***Deall geiriau syml am weithredoedd (berfau).***<br><br>**Beth i'w wneud:** Chwaraewch gêm gyda chân syml â symudiadau e.e. *Mi Welais Jac y Do.* Anogwch y plant i ymuno gyda'r symudiadau e.e. *'Curo dwylo, curo dwylo.. clap, a chlap a chlap fel hyn.'*<br><br>Gallwch ddefnyddio hyn mewn arferion bob dydd hefyd e.e. *'Golchi dwylo, golchi dwylo, sgrwb a sgrwb a sgrwb fel hyn.'* | Dangoswch y symudiadau yn y gân i'r plentyn gan ddefnyddio Tedi neu Doli. | Amrywiwch eiriau'r gân er mwyn ychwanegu mwy o symudiadau. |
| **Dere i siopa** | ***Dod o hyd i wrthrych cyfarwydd pan gynigir dewis.***<br><br>**Beth i'w wneud:** Gosodwch siop syml ar y bwrdd neu'r llawr. Dangoswch y gwrthrychau i'r plant ac enwch nhw wrth i chi eu gosod allan. Gofynnwch i'r plentyn gael eitemau penodol i'w rhoi yn y bag neu'r fasged siopa e.e. *'Ble mae'r afal?.'*<br><br>Canmolwch y plentyn wedi iddynt ddod o hyd i'r gwrthrych cywir. | Dechreuwch trwy ofyn am un eitem. Cyfyngwch ar y dewis sydd ar gael. | Cynyddwch nifer yr eitemau yr ydych yn gofyn amdanynt. |

**Mae Defnyddio Iaith Lafar (iaith fynegiannol) yn dilyn dilyniant a gydnabyddir:**

| 9 mis | 18 mis | 2 flwydd oed |
|---|---|---|
| Parablu, ymgais gynnar i ddweud geiriau e.e. *'Dada'* | Mae'n defnyddio tua 50 i 100 o eiriau gyda geiriau y gellir eu hadnabod yn well.<br>Weithiau mae'n defnyddio ymadroddion dau-air a ddysgodd e.e. *'wedi mynd'* | Mae'n defnyddio tua 200 i 300 o eiriau.<br>Mae'n rhoi 2 a 3 gair gyda'i gilydd mewn brawddegau byr e.e. *'Fi mynd adref'.* |
| **2 ½ flwydd oed** | **3 blwydd oed** | **3 ½ blwydd oed** |
| Mae'n rhoi brawddegau 3- a 4-gair at ei gilydd gan ddefnyddio mathau gwahanol o eiriau.<br>Mae'n dechrau defnyddio 'geiriau cwestiwn' e.e. *'Fi mynd fanna?'* | Mae'n cysylltu mwy na 4 gair at ei gilydd.<br>Mae'n dechrau defnyddio *'a'* i gysylltu syniadau.<br>Mae'n dechrau defnyddio rhagenwau, *'fi', 'fe', 'hi'* a geiriau lluosog e.e. '*Fi moyn sudd a losins.'* | Mae'n cysylltu syniadau at ei gilydd gan ddefnyddio *'achos'* e.e. *'Fi'n gwisgo welis achos mae'n bwrw glaw.'*<br>Mae'n holi cwestiynau mwy cymhleth gan ddefnyddio *'pam'* a *'fel'.* |
| **4 blwydd oed** | | **4 ½ blwydd oed** |
| Mae'n defnyddio iaith am amrywiaeth o resymau e.e. er mwyn ailadrodd hoff straeon, chwarae gêmau dychmygus ac ailadrodd digwyddiadau.<br>Mae'n siarad i ddatrys problemau a ffurfio cyfeillgarwch.<br>Mae'n holi llawer o gwestiynau er mwyn darganfod mwy o wybodaeth. | | Mae gan blant eirfa o tua 5000 o eiriau a mwy. |


## Defnyddio Iaith Lafar – STRATEGAETHAU ALLWEDDOL 18 mis i 2 flwydd oed

**Dilynwch arweiniad y plentyn a siaradwch am yr hyn mae'n ei wneud.**

Rho amser i fi i ymateb.

Rho ddewis i fi e.e. wyt ti eisiau *llaeth* neu *ddŵr?*

Ychwanega air at yr hyn rwy'n ei ddweud e.e. Rwy' dweud *'car'*, rwyt ti'n dweud *'car Dadi'*.



Dilyna fy arweiniad.

Defnyddia enwau gwrthrychau yn lle gofyn *'Beth yw hwn?'*

| Gweithgaredd | Defnyddio Iaith Lafar - Gweithgareddau a Awgrymir<br>(18 mis i 2 flwydd oed) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Beth sydd yn y bag?** | ***Ehangu geirfa  trwy enwi eitemau.***<br><br>**Beth i'w wneud:** Rhowch gasgliad o wrthrychau cyfarwydd mewn bag. Cymerwch dro i dynnu gwrthrych allan ac annog y plentyn i'w enwi e.e. *'Beth sydd yn y bag? ''Dyma _____.*'Ailadroddwch y gair yn ôl e.e. '*Da iawn, banana sydd yn y bag.'*<br>Os nad yw'r plentyn yn enwi'r gwrthrych, enwch y gwrthrych iddynt a defnyddiwch arwydd/ystum. | Defnyddiwch eitemau cyfarwydd iawn ac enwch nhw i'r plentyn. | Ychwanegwch fwy o eitemau. |
| **Chwarae pypedau** | ***Cysylltu geiriau.***<br><br>**Beth i'w wneud:** Casglwch ddewis o fwydydd er mwyn bwydo pyped. Cyflwynwch y pyped a dwedwch *'Helô (enw'r pyped).'* Holwch y plentyn beth hoffai'r pyped ei fwyta ac yna dangoswch sut i fwydo'r pyped gan ddefnyddio cymalau byr e.e. '*Mwy o fanana'.* '*Mae'r pyped yn bwyta cacen.'* '*Llaeth wedi mynd.'* | Modelwch sut i fwydo'r pyped amser byrbryd – gallwch esgus eich bod yn ei fwydo wrth i'r  plentyn fwyta. | Anogwch y plentyn i ddefnyddio cymalau â dau neu dri gair wrth ddweud wrthych beth i'w roi i'r pyped i'w fwyta. |
| **Chwarae gyda cheir** | ***Ehangu geirfa, gan gynnwys geiriau am weithredoedd (berfau) trwy eu henwi.***<br><br>**Beth i'w wneud:** Defnyddiwch fat ceir (gallech greu eich mat ceir eich hun). Gyrrwch y ceir ar hyd yr heol a siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei wneud e.e. *'Rwyt ti'n gyrru'r car.' 'Rydyn ni'n mynd i'r garej.' 'Mae'r car yn stopio.' 'Stop.'*<br>Anogwch y plentyn i ddweud wrthych beth maent yn ei wneud. | Siaradwch am yr hyn sy'n digwydd heb ofyn i'r plentyn ddweud wrthych. | Cyflwynwch lefydd gwahanol ar y mat ceir a siaradwch am ble'r ydych yn mynd. Cyflwynwch eiriau sy'n disgrifio e.e. *mawr, bach* a'r arddodiaid *dan, mewn.* |

## Datblygiad Nodweddiadol Lleferydd


| 2 flwydd 10 mis oed – 3 blwydd 10 mis oed | 3 blwydd 10 mis oed – 5 blwydd 1 mis oed | 5 blwydd 2 mis oed – 7 blwydd 3 mis oed |
|---|---|---|
| Bydd 50% o leferydd plentyn yn ddealladwy i oedolion anghyfarwydd | Bydd 75% o leferydd plentyn yn ddealladwy i oedolion anghyfarwydd | Bydd 90% o leferydd plentyn yn ddealladwy i oedolion anghyfarwydd |

Hustad, Mahr, Natke and Rathouz (2021)

- **Mae gan synau lleferydd ddilyniant datblygiadol**
- **Mae synau lleferydd yn amrywio o iaith i iaith.**
- **Gallai plant sy'n dysgu mwy nag un iaith ddatblygu synau lleferydd mewn trefn wahanol.**
- **Gweler** Speech acquisition - Multilingual Children's Speech (csu.edu.au) **am fwy o wybodaeth.**

## Poster Datblygiad Synau Lleferydd Saesneg

**(Nid oes unrhyw wybodaeth am y normau ar gyfer datblygiad synau lleferydd yn y Gymraeg)**




## Lleferydd - STRATEGAETHAU ALLWEDDOL 18 mis i 2 flwydd oed

**Ceisia beidio â dweud wrthyf fy mod wedi dweud rhywbeth yn anghywir.**

Ailadrodda fy ngair yn ôl i mi (gyda'r synau cywir) os wyt ti'n gwybod beth wnes i ddweud.

Ymateba i'r geiriau rwy'n eu dweud, ac nid i ba mor glir ydw i.

Ceisia beidio â gofyn i fi ailadrodd geiriau aneglur.



Sicrha dy fod wyneb-yn-wyneb â fi er mwyn i fi weld sut rwyt ti'n gwneud synau. Paid â disgwyl i fi dy gopïo.

Paid ag esgus dy fod yn deall - gofyn i fi ddefnyddio symudiadau i ddangos beth rwy'n ceisio'i ddweud.